

Hawdd ei ddeall

Dweud eich Dweud

Helpwch ni i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn well



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Llais. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Dweud eich dweud ar sut y gall Llais weithio gyda phobl Cymru'

Mehefin 2023

Cyflwyniad



Ni ydy Llais, corff annibynnol sydd wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru.



Rydyn ni yma i helpu pobl i gael mwy o lais am sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cynllunio a'u darparu.



[Mae rhagor o wybodaeth am beth rydyn ni yn ei wneud ar y wefan yma.](#)




Rydyn ni eisiau siarad gyda phobl ar draws Cymru i'n helpu i benderfynu beth ddylai ein cynlluniau a'n nodau fod.

Rydyn ni eisiau gwybod sut rydych chi'n meddwl y dylen ni gyflawni ein gwaith.



Rydyn ni eisisau clywed beth sydd fwyaf pwysig i chi am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Fe fydd hyn yn ein helpu ni i wneud yn siŵr bod ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth mawr.



Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn defnyddio beth rydych chi'n feddwl i wneud gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well.

Sut i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl



Rydyn ni eisiau i chi ddweud wrthyn ni sut rydych chi'n meddwl y dylen ni wneud ein gwaith a beth sydd mwyaf pwysig i chi am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl, rydych chi'n gallu ymuno â'n digwyddiad ar-lein, llenwi ein harolwg, neu siarad â ni. Mae eich ffrindiau a'ch teulu yn gallu ymuno hefyd.



1. Ymunwch â'n digwyddiad ar-lein:

Archebwch [yma](#).

2. Llenwch ein harolwg:

Atebwch ein cwestiynau ar eich pen eich hun neu mewn grŵp.

Mae'r arolwg ar gael [yma](#).

Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl

1. Ydych chi'n hoffi'r syniad?

Ydw

Nac ydw

Ddim yn siŵr



2. Siaradwch â ni:

E-bostiwch ni ar: ymholiadau@llaiscymru.org.

Fe fyddwn ni yn ymateb i drefnu dyddiad ac amser sy'n addas i chi.



Rydyn ni hefyd yn gallu ymuno â chyfarfod ar-lein o'ch tîm neu gymuned.



Fe fyddwn ni yn casglu beth rydych chi'n feddwl tan **31 Gorffennaf 2023**.



Fe fydd eich syniadau yn ein helpu ni i gynllunio ar gyfer y dyfodol.



Diolch am ein helpu ni.

Cyswllt

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau mae croeso i chi gysylltu gyda ni.



E-bost: ymholiadau@llaiscymru.org



Ffôn: 02920 235 558



Gwefan: <https://www.llaiscymru.org/cysylltwch-ni>



Fe wnaeth [Hawdd ei Deall Cymru](#) wneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247.](#)